

### Dyddiadur Sioe ar Daith Sue



Gail Allen ac ymwelydd yn Sioe ar Daith Abertawe

Dyma ddelwedd i godi calon o Sioe ar Daith Abertawe wrth i'r Prosiect garlamu'n ei flaen. Bellach rydym wedi cynnal dwy sioe ychwanegol – yng Nghasnewydd a Dolgellau ond rwy'n mynd i adael i Rhiannon a Justine sôn am y rheiny.

Mae'r Sioeau ar Daith yn sicr yn cyflwyno rhannau o Gymru i mi na wyddwn am eu bodolaeth cynt; ar fy ffordd i Gaernarfon arhosais yng Nghorris – gyda Gill a Gill, 31 mochyn gini, 3 chi a chwingen. Cefais groeso bendedig a sefais mewn pentre bach hardd dros ben a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer set rhaglen deledu petaent am wneud sioe werinol Gymreig nos Sul ar gyfer byddigions. At hyn, rwyf wedi gyrru trwy ardaloedd o gefn-gwlad godidog. Roedd Sioe ar Daith Caernarfon yn un arall gyffrous – gyda'r bonws ychwanegol fod Rhiannon wedi bod â'r weledigaeth i drefnu cinio ar ein cyfer. Yn ystod y Sioe hon treialwyd ein cytundeb newydd â Culturenet Cymru sy wrthi'n sganio a thynnu lluniau o'r holl ddefnyddiau a ddaw i law – yn broffesiynol a chyda chanlyniadau trawdiadol. Edrychwch ar eu gwefan [www.culturebnetcymru.com](http://www.culturebnetcymru.com) am ragor o wybodaeth.

Un datblygiad diddorol, a heriol, sy'n mynd â'm holl fryd ar y foment yw'r cyfle a ddaeth inni osod arddangosfa hanner ffordd drwy'r prosiect yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe. Gan fod hwn yn sefydliad pur fawreddog, mae'n codi ychydig o ofn

arnaf hefyd! Bydd Edwina Hart yn agor yr Arddangosfa ar Awst 11eg am 10 o'r gloch y.b. felly ceisiwch fod yn bresennol o.g.y.dd. Byddaf yn gwahodd rhai o'r bobl a fu'n ddigon caredig i ddod ag eitemau i'r Sioeau ar Daith a gwn y bydd fy arwres, Marjorie Edmunds, sy bellach yn 86 oed ac yn gyn-beiriannydd awyrennau, fel y nodwyd yn y cylchlythyr blaenorol, yn ei mynychu – dewch i gwrrd â hi.

Mae'r cynlluniau ar gyfer Sioe ar Daith Hwlffordd yn mynd rhagddynt ar Fedi 13eg, 2008 a bydd Debra Griffiths o raglen boblogaidd 'The Coal House' yno i'w hagor. Edrychwch ar ein gwefan am ragor o wybodaeth.

Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i wneud sawl darllediad yn ddiweddar. Yr hiraf ond y rhyfedda oedd yr un wnes i gyda Roy Noble – bendith ar ei ben. Ar ddiwrnod y darllediad roedd ganddo dipyn o annwyd ar y frest. Roeddwn yn poeni cymaint y byddai'r gwrandawyr yn sylweddoli ei fod mewn iechyd gwael nes imi ddechrau siarad fel melin bupur a dim ond 12 gair ddwedodd Roy gydol y rhaglen! Teimlwn imi wneud cryn ffafur ag e – dychmygwch, felly, yr olwg ar fy wyneb pan gwrrdais â'r cynhyrchydd a ddwedodd wrthyf 'A! felly chi yw Sue Hamill – chi sy ar dop ein rhestr cyfranwyr'. Dechreuais ymchwyddo mewn balchder – oeddwn i mor ddiddorol â hynny tybed? Pam nad ydw i'n gweithio ar y radio? Neu'r teledu? Am funud credwn mai fi ddylai fod y Parkinson benywaidd newydd. 'Ie' meddai, 'Rydych chi ar dop y rhestr fel y person sy wedi gallu siarad mwy na Roy – dylech chi fod yn falch, chi'n gwybod – does dim llawer o bobl wedi gallu gwneud hynny!' Aeth fy wyneb yn fflamcoch a'r gwynt o'm hwyliau!

Yn ystod y Sioeau ar Daith rydym wedi casglu, yn bennaf trwy ymdrechion Paulette Pelosi, gatalog o ddarluniau 'diddorol', fel yr un ar ben yr erthygl hon o Gail Allen, ac felly rwyf wedi penderfynu gosod cystadleuaeth i greu teitl iddo – dyma'r ddelwedd ac mae'r wobwr yn arbennig o werthfawr – ond mae'n rhaid i chi ymgeisio ac ennill i ddarganfod beth yw hi!



Darlun y gystadleuaeth – Beth sy'n cael ei ddweud wrth bwy?

Anfowch eich cynigion ataf i ar [sue.hamill@womensarchiveswales.org](mailto:sue.hamill@womensarchiveswales.org) a chaiff yr enillydd y sylw dyledus yn y Cylchlythyr nesa.

Hwyl

Sue Hamill

Swyddog Datblygu

### Sioe ar Daith Casnewydd

Cafwyd Sioe ar Daith lwyddiannus yng Nghasnewydd ar 16eg Mai. Agorwyd hi gan Jessica Morden AS a Rosemary Butler AC a ychwanegodd elfen bersonol trwy ddod â darluniau o'i theulu ei hun i'w dangos.

Roedd yr Amgueddfa yn lleoliad da iawn ac ymunodd Rachel Anderton (curadur Amgueddfa Casnewydd) ac Emily Price (curadur Tŷ Tredegar) ag arbenigwyr yr archif ei hun. Roedd Frances Younson o Archifdy Gwent wrth law hefyd i gynnig gwybodaeth ar sut i edrych ar ôl defnyddiau a daeth staff Casgliad y Meysydd Glo â stondin lyfrau a fu'n boblogaidd iawn.

Rhoddodd Rachel Lock-Lewis, Uwch-ddarlithydd mewn hanes yn Ysgol Addysg Prifysgol Cymru, Casnewydd, sgwrs ddiddorol ar hanes diweddar menywod yn ardal Casnewydd.

Fel yn y Sioeau ar Daith blaenorol, daeth y cyhoedd ag eitemau diddorol iawn i'w dangos, gan gynnwys:

- Casgliad mawr o fedalau, tystysgrifau, cardiau post, ffotograffau a.y.y.b yn gysylltiedig ag Annie Elizabeth Brewer, a ymgymhwysodd fel nyrs yn 1903 ac a enillodd nifer o fedalau am ei gwaith yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Darlun o Blodwyn Mutton, a weithiai yng Ngwaith Ffrwydrion Curren's Caerdydd, a llythyr yn diolch iddi am ei gwaith yn amddiffyn y wlad, oddi wrth Edward Curren, y Cyfarwyddwr.
- Llyfrau cofnodion gwreiddiol Townswomen's Guild Malpas, a ddechreuodd ym Mai 1961,

yn rhoi hanes grwpiau drama, côr a grwpiau astudiaethau cymdeithasol.

Justin Hankin

Gweithiwr Maes y De/Gogledd Ddwyrain

### Sioe ar Daith - Caernarfon

Archifdy Caernarfon ar Ddoc Victoria yn y dref oedd lleoliad yr ail o'r Sioeau ar Daith ar gyfer gogledd Cymru, gynhaliwyd dydd Sadwrn, 28 Mehefin. Mae Caernarfon yn dref sirol brysur ar arfordir y gogledd, ac mae'r Doc wedi gweld newid mawr dros y blynyddoedd diwethaf. Bellach mae Galeri yno sy'n gyrchfan amrywiaeth o adloniant, bwyty'r Harbwr, a datblygiad tai newydd dadleuol gan Watkin Jones. Roedd y Sioe ar Daith yn cynnig cyfle i bobl yr ardal daro i mewn rhwng 11 a 3, a llwyddwyd i ddenu dros 40 o unigolion o leoedd mor bell â Phwllheli a hyd yn oed Llanuwchllyn ym Meirionnydd.

Ein harbenigwyr o AMC oedd yr Athro Deirdre Beddoe a Catrin Stevens, haneswyr gwybodus a phrofiadol, gafodd gefnogaeth ein partneriaid technegol Culturenet Cymru, a staff yr Archifdy, gan gynnwys y Gwarchodwr a'i gynorthwydd. Daeth Annie Williams heibio hefyd, yr hanesydd sy'n arbenigwr ar ymwneud menywod â'r mudiad heddwch, oedd wedyn ar gael i roi hoe fach i'r arbenigwyr eraill gael eu gwynt atynt. Fel Trefnydd, roeddwn i'n falch o gael cymorth tair o blith aelodau'r Archif - Luned Meredith, Trish Reid a Lindy Moore. Bu Luned yn cyfarch a chofrestru, a'r ddwy arall yn cadw'r ymwelwyr yn hapus gyda phaneidiau a sgwrsio wrth iddynt aros eu tro. Cafodd Jenny Sabine, arbenigwr yr Archif ar amgueddfeydd, gymorth parod Esther Roberts o Amgueddfa Bangor, a bu'r ddwy'n trafod eitemau heblaw dogfennau oedd yn cael eu hadneuo gan ymwelwyr. Bu Sue Hamill a minnau'n cadw olwynion y peiriant yn rhedeg yn llyfn.

Bydd Caernarfon weithiau'n galw'i hun yn dref frenhinol, a bu'r eitemau ddaeth i'r fei yn ystod y Sioe yn wirioneddol dywysogaidd. Roedd ein harbenigwyr wrth eu boddau gyda safon ac amrywiaeth y pethau gafodd eu cyflwyno, a hefyd y dogfennau gafodd eu hadneuo yn enw'r Archif. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Casgliad o lyfrau cownt a gadwyd gan fam Angharad Tomos, Eryl Haf Tomos, oddi ar ei phriodas yn 1951 hyd heddiw. Mae'r rhain yn drysorfa o wybodaeth am brisiau angenrheidiau fel bara a'i neges wythnosol o'r cyfnod ar ôl y rhyfel oedd yn dal dan


ddyfanwad dogni. Gan fod ganddi bum merch, mae ynddo wybodaeth am brisiau esgidiau a dillad ysgol. Ceir hefyd gofnodion mwy personol fel rhestrau o'i hoff lyfrau, dyfyniadau, a nodiadau o ddosbarthiadau nos – y cyfan yn gofnod gwych o fywyd a gwaith gwraig a mam dros gyfnod hir o flynyddoedd.

- Cofnodion cangen Bangor o'r *Women's International League for Peace and Freedom* rhwng Mawrth 1955 ac Ebrill 1957 gyda llun gorymdaith Gogledd Cymru o'r *Peacemaker's Pilgrimage* yn 1926. Sefydlwyd y Gynghrair yn 1915 er mwyn ymgyrchu dros ddiarfogï byd a hawliau menywod.
- Medalau arian o ardal Tywyn ym Meirionnydd oedd yn wobrwyon am fynychu'r ysgol yn ddi-dor, gan gynnwys medal aur ac oriawr am fynychu am 7 mlynedd heb golli un diwrnod. Ceir hefyd lun o fodrybedd ac ewythrod yr ymwelydd yn gwisgo'r medalau hyn.
- Cyfres o lythyrau at ffrind oddi wrth Marion Eames, yr awdur enwog, pan oedd yn ferch ifanc yn gweithio yn Lloegr yn 1940au. Mae'r cynnwys yn gofnod diddorol o egino'i chenedlaetholdeb ac o'i heddychiaeth yn y cyfnod hwnnw'n dilyn yr Ail Ryfel Byd, a'r pethau oedd yn poeni merch ifanc ddeallus.

Wythnos 1.	Hydref 1-7.	1951.
Arvan - 12-3-6.	L. S. d.	
Sun 1 Llefithi		3 6
Man 2 Bara ocean.		1 10 <sup>1</sup> / <sub>2</sub>
Tue 4 Ffyntha etc		3 5 <sup>1</sup> / <sub>2</sub>
		Bara 11 <sup>1</sup> / <sub>2</sub>
		Sonyls 5
		Rakons 10-0
		Poent 1-1
Gwener 5 Pabry brush		1-6
		Pysgod (plaiice) 2-0
		Sony (5 pyp)
		Polish arvan 1-6
		Sebon sisgr 9
		Pensli a pyp 4
Sadwrn 6 Llefithi		7-0
		bonn Stakes & Bives 3-3 <sup>1</sup> / <sub>2</sub>
		3 cacow eccles 1-3
awst 3-6.		£ 2-0-0

Tudalen Awst 1951 o'r Llyfr Cownts sy'n dangos gwariant wythnos.

Casgliad eang o ddogfennau amrywiol sy'n gysylltiedig â bywyd a gwaith y Chwaer Kate Jones (1885-c1975) o Fangor, oedd yn aelod o *Forward Movement* y Methodistiaid Calfinaidd (sefydlwyd 1891). Yn eu mysg mae poster o ddogwyddiad gan y chwiorydd yn 1941 (gweler y llun) a thystysgrif gafodd o'r Gobeithlu yn 1898.



Poster o gyfarfod Chwiorydd y mudiad ym 1941 lle'r oedd Kate Jones yn annerch.

Rhiannon Gomer  
Gweithiwr Maes y Gogledd/Gorllewin

### Casgliad Diddorol

Ddiwrnod cyn lansio Sioeau ar Daith Hanes Menywod Cymru ar 29ain Ionawr, bu Sue (y Swyddog Datblygu) a'n llywydd Deirdre Beddoe ar Women's Hour i siarad am y prosiect. O ganlyniad, derbynion ni lu o e-byst oddi wrth bobl oedd wedi clywed y rhaglen yn crybwyll defnydd a allasai fod o ddiddordeb inni.

Roedd un o'r rhain oddi wrth rywun yn byw yn Rhayadr, sef Mrs Joan Jones, a oedd â llawer o ddefnyddiau yn ei hatig yn ymwneud â llysfam ei diweddar wr, Agnes Irene James (a elwid yn Renee), Macdonald gynt, a oedd yn ferch i ymfudwyr Albanaidd ym Merthyr. Ganwyd hi yn 1898 ac aeth i Ysgol Ganolradd Merthyr. Yn 1916 aeth i Brifysgol Caerdydd a bu'n byw yn Neuadd Aberdare, y neuadd breswyl gyntaf i fenywod yn unig (sy'n dal yn derbyn dim ond menywod); cymerodd radd BSc mewn Bioleg a Botaneg, ac yna MSc yn Abertawe a Doethuriaeth mewn Daereg a Phalaeontoleg yn Imperial College, Llundain.

Darlithodd Renee Macdonald am gyfnod yng Ngholeg Bedford, coleg i ferched bryd hynny a rhan o Brifysgol Llundain, cyn dychwelyd i Gymru i ddysgu bioleg a dod yn uwch athrawes (h.y. pennaeth y merched, swydd gyffredin mewn ysgolion gramadeg cymysg yn ystod yr 1950au a'r 60au) yn Ysgol Ramadeg Sirol Merthyr.

Ceir llawer o'r hanes hwn yn y casgliad, sy'n cynnwys copi o'i ffurflen dderbyn i Neuadd Aberdare, darlun o fyfyrwagedd yn yr 'Old Hall' Caerdydd, 1917, ei thystysgrifau BSc a PhD a chopïau o ohebiaeth yn ymwneud â'i chais i Brifysgol Abertawe i wneud ei MSc ac i Goleg Bedford. Ceir darlun arall hefyd – staff Ysgol Ramadeg Sirol Merthyr mae'n debyg, ond fel gyda chymaint o ffotograffau, nid oes manylion ar y cefn.

Wedi ymddeol bu Renee Macdonald yn byw am gyfnod gyda chriw o artistiaid yn Sir Gaerloyw lle roedd ei chwaer yn bennaeth yr ysgol gynradd. Mae'r casgliad a gawsom gan Mrs James yn cynnwys nifer o'i brasluniau a'i dyfrlliwiau ac roedd hi'n artist amatur talentog heb os.

Yn 1966 priododd gyn-Brif Bostfeistr Llandrindod Wells, Tom James a thua'r cyfnod hwn dechreuodd gadw dyddiadur; ceri y rhain yn y casgliad ynghyd â chopïau o ffotograffau teuluol o'i phriodas, a'i llyddeulu. Wedi marw'i gŵr yn 1973, parhaodd i fyw yn Aberhonddu nes ei marwolaeth yn Awst 1992.

Efallai mai'r eitem fwyaf eironig yn y casgliad yw copi o'r *Brecon and Radnor Times*, 1af Hydref 1992 sy'n cynnwys ei hysgrif goffa a'r pennawd '*Postmaster's wife dies, aged 94*'.

Cefais i'r casgliad hwn yn arbennig o ddiddorol oherwydd pan oeddwn i'n mynychu ysgol ramadeg ddiweddd yr 1950au, roedd ein huwch athrawes ni yn ddaearegydd hefyd, a chanddi ddoethuriaeth a DSc. Er gwaetha hyn, treuliodd ei gyrfa broffesiynol yn dysgu plant ysgol, gan ysbrydoli sawl disgybl i astudio daeareg o ddiifri.

Heb amheuaeth, roedd llawer menyw arall yn y cyfnod hwn a chanddi gymwysterau uchel ond na cheisiodd ddilyn gyrfa broffesiynol o broffil uchel. Yn llawer mwy na gweddw postfeistr, mae'n amlwg i Renee (Macdonald) James gael bywyd diddorol ac amrywiol, y cawn gipolwg yn unig ohono yn y casgliad hwn.



*Myfyrwagedd, Prifysgol Caerdydd, geiriad ar y cefn – 'Old College, 1917'*

Avril Rolph

Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol

RHOWCH Y DYDDIADAU HYN YN EICH

DYDDIADUR: 11&12 Hydref

Canolfan y Morlan, Aberystwyth

Eleni rydym yn ymuno â Fforwm Hanes Lleol Ceredigion mewn rhaglen gyffrous ar y thema

Menywod yng Nghymru'r 19eg a'r 20fed

Ar y dydd Sadwrn a fore Sul bydd amrywiaeth o sgysiau ac ar brynhawn dydd Sadwrn gwahodddwn chi i gymryd rhan yn un o Sioeau ar Daith Hanes Menywod Cymru a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri. Nos Sadwrn bydd cyfle i gymdeithasu dros ginio yn Nhŷ Nwyta Tides. Rydym yn cynllunio sesiynau anffurfiol eraill ac wrth gwrs bydd Cyfarfod Blynyddol AMC/WAW, lle cewch chi gyfle i ddweud eich dweud am redeg yr Archif.

Bydd manylion llawn am y Gynhadledd a ffurflen archebu lle ar ein gwefan

[www.womensarchiveswales.org](http://www.womensarchiveswales.org) cyn gynted ag y cwblheir y rhaglen a byddwn yn ei hanfon drwy'r post at aelodau hefyd. Ceir rhestr o letyau yn Aberystwyth oddi wrth Ganolfan Wybodaeth Twristiaid Aberystwyth [aberystwythTIC@ceredigion.gov.uk](mailto:aberystwythTIC@ceredigion.gov.uk)

Jane Aaron a Ursula Masson gol. *The Very Salt of Life. Welsh Women's Political Writings from Chartism to Suffrage* Dinas Powys: Honno Press, 2007

Mae Honno wedi llwyddo eto! Mae'r antholeg hon o ysgrifennu menywod yng Nghymru sy'n rhychwantu canrif o'r 1830au tan yr 1930au yn ychwanegiad arall i'w groesawu at y llyfrau clawr papur rhesymol eu pris a chymen eu maint sy'n nodweddu Clasuron Honno. Wedi'u rhannu yn bedair rhan, cyflwynir y dogfennau yn y ddwy adran gyntaf gan Jane Aaron. Maent yn ymwneud â Siartiaeth, cenedlaetholdeb a

gwleidyddiaeth iaith, mynegiant o anghytundeb benywaidd mewn cylchoedd crefyddol a phryderon diwygwyr addysgiadol a dirwestol. Ursula Masson sy'n cyflwyno'r ddwy adran olaf, lle ysgrifenna am destunau yr oedd hi'n gymaint arbenigwraig arnynt: gwleidyddiaeth ryddfrydol a llafur a rhyddfraint menywod. Dengys y canlyniad sut y mae cydweithio rhyngddisgyblaethol yn hyrwyddo dealltwriaethau llenyddol a hanesyddol.

Mae'r antholeg hon yn gwneud dogfennau gwerthfawr ynglŷn â dyheadau, cwynion, gwaith a buddugoliaethau menywod, na fyddai'n hawdd eu darganfod fel arall, yn hygyrch. Yn ogystal â phersonoliaethau adnabyddus fel Arglwyddes Llanofer ac Is-larlles y Rhondda ceir protestwyr Siartaidd (Female Patriotic Association y Coed-duon) a Gwladys Perrie Williams a ddatganodd yn y *Welsh Outlook* yn 1919 'The future definition of the term Wales depends on the attitude of Welsh women today'.

Mae'r llyfr hwn yn bwysig am ddau reswm arall. Rhydd inni ddogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn yr un gyfrol. Dengys inni sut y defnyddiwyd yr iaith gan, er enghraifft, y Methodist Calfinaidd, Margaret Evans Roberts ym mhrif wythnosolyn yr UD 'Y Drych'

i gwyno am y ffaith na châi menywod bregethu ym mhulpudau Cymru. Mae cyfieithiadau i'r Saesneg yn galluogi darllenwyr di-Gymraeg hefyd i werthfawrogi'i theimladau ynghyd â rhai mwy adnabyddus Cranogwen (Sarah Jane Rees), ffigwr arall di-flewyn-ar-dafod ar y pwnc hwn a llawer o rai eraill. At hyn gwrthododd y golygyddion roi dim ond pythau arwynebol inni. Am unwaith atgynhyrchir dogfennau cyfain neu dalpau helaeth ohonynt. Gallwn, felly, werthfawrogi dadleuon am, er enghraifft, addysg uwch merched yng Nghymru. Defnyddiwyd llawer o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys darn o hunanfywgraffiad gan y trefnydd rhyddfrenio, Rachel Barrett, un o nifer o fenywod y sonnir amdanynt, fel y sylwodd yr adolygydd hwn â phleser, a oedd yn dod o orllewin Cymru!

Angela John, Prifysgol Aberystwyth

## CYMYNRODD URSULA, A'I LLYFRAU

Gadawodd Ursula Masson ei phapurau personol i Archif Menywod Cymru. Mae'r rhain yn gasgliad rhyfeddol sy'n cofnodi bywyd a gwaith menyw brysur a oedd yn llwyr ymroddedig i'w diddordebau a'i hargyhoeddiadau. Mae'r casgliad wedi'i roi ar adnau yn Archifdy Morgannwg yng Nghaerdydd, lle caiff ei ddioli, ei gatalogio ac y bydd ar gael i ymchwilyr.

At hyn, mae teulu Ursula wedi bod mor hael ag i roi ei chasgliad mawr o lyfrau i'r Archif. Unwaith eto, cynrychiola'r rhain ei diddordebau, ac yn arbennig ei hastudiaeth hir-dymor o hanes menywod. Diddordebau ymchwil neilltuol Ursula oedd ymgyrch ryddfrenio dechrau'r 20fed ganrif a gweithgareddau gwleidyddol menywod. Mae'r llyfrau'n rychwantu testunau academaidd ar astudiaethau ffeminyddol a rhywedd, hanes a gwleidyddiaeth menywod a Chymru i nofelau, barddoniaeth a theithio. Ar hyn o bryd, rydym yn didoli'r llyfrau hyn: caiff y mwyafrif ohonynt eu cadw yn ein swyddfa yng Nghasllwchwr, tan y cawn gartref mwy parhaol. Gobeithiwn y byddant ymhen amser yn ffurfio cnewlyn casgliad o adnoddau hanes menywod Cymru.

### Cais am gymorth

Mae rhestru'r holl lyfrau yn brosiect pwysig. Bydd y rhestr yn cael ei chynnwys gyda'i phapurau, yn gofnod o ddiddordebau ymchwil a hamdden Ursula, a bydd yn gatalog o'r casgliad. Rydym wedi creu bas-data syml ac wedi dechrau cynnwys pob llyfr arno. Byddem yn wirioneddol ddiolchgar i gael cymorth gyda'r dasg enfawr hon felly, os gallwch deipio, eich bod yn byw yn Abertawe a bod gennych oriau sbâr, cysylltwch ag un ohonon ni os gwelwch yn dda.

Jenny Sabine ac Avril Rolph

[jennifer@sabine5.wanadoo.co.uk](mailto:jennifer@sabine5.wanadoo.co.uk) 01792-874143

[avril@rolph24.freeseve.co.uk](mailto:avril@rolph24.freeseve.co.uk) 01792-233482

## Dyddiadau i'ch Dyddiadur

Arddangosfa Artistiaid Benywaidd – Abertawe  
O 5 Gorffennaf tan 14 Medi cynhelir arddangosfa yn  
Abertawe o waith rhai artistiaid benywaidd o  
gasgliadau Oriel Gelf Glynn Vivian ac Amgueddfa  
Genedalethol Cymru.  
Enw'r arddangosfa yw *On Reflection*

Ceir cyswllt â'r arddangosfa ar  
[www.glynnviviangallery.org](http://www.glynnviviangallery.org)

Gall fod rhai ohonoch ar eich gwyliau yn Abertawe a  
hithau'n bwrw glaw ...

**Gail Allen**  
(Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth dros dro)

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr ar  
agweddau ar hanes menywod yng Nghymru oddi  
wrth bob aelod. Anfonwch eitemau at Pat Widger ar  
[patriciawidger@aol.com](mailto:patriciawidger@aol.com) o.g.y.dd. Byddai'n  
gymorth petai modd cyflwyno'ch cyfraniadau yn  
ddwyieithog.

Dyddiad defnydd ar gyfer y rhifyn nesa: 1af Medi  
2008

Golygwyd y cylchlythyr hwn gan Pat Widger ac fe'i  
cyfieithwyd gan Catrin Stevens  
Darluniau gan Paulette Pelosi

### Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:

Sue Hamill, Swyddog Datblygu – Cyfeiriad Swyddfa,  
Tŷ'r Arfordir, 50 Corporation Road, Casllwchwr,  
Abertawe SA4 6SD

Rhif ffôn: 01792 229221 neu e-bost

[sue.hamill@womensarchivewales.org](mailto:sue.hamill@womensarchivewales.org)

Rhiannon Gomer, Gweithiwr Maes y

Gogledd/Gorllewin 01341 420168

[rhiannon.gomer@womensarchivewales.org](mailto:rhiannon.gomer@womensarchivewales.org)

Justine Hankins, Gweithiwr Maes y De/Gogledd

Ddwyrain 07966 968453

[justine.hankins@womensarchivewales.org](mailto:justine.hankins@womensarchivewales.org)

Llafur: gwefan Cymdeithas Hanes Gweithwyr Cymru  
[www.llafur.org](http://www.llafur.org)

Dyddiad	Tref	Lleoliad	Amseriad
24 Gorffennaf 2008	Blaenafon	Neuadd y Gweithwyr	3pm – 7pm
13 Medi 2008	Hwlfordd	Llyfrgell Gyhoeddus	I'w gadarnhau
11 Hydref 2008	Aberystwyth (gan gynnwys ein Cyfarfod Blynyddol, a'n Cynhadledd Flynyddol (12.10.08 )	Canolfan y Morlan	2pm – 5pm
1 Tachwedd 2008	Llandrindod	Amgueddfa Sir Faesyfed	10.30am – 1pm
29 Tachwedd 2008	Caerfyrddin	Neuadd Sant Pedr	I'w gadarnhau
Ionawr 2009	Sir Fflint	I'w gadarnhau	
28 Chwefror 2009	Pontypridd	Amgueddfa Pontypridd	I'w gadarnhau
28 Mawrth 2009	Wrecsam	Amgueddfa ac Archifdy	12pm – 3.30pm
25 Ebrill 2009	Llangefni	Oriel Ynys Môn	I'w gadarnhau
13 Mehefin 2009	Merthyr Tudful	Amgueddfa Castell Cyfarthfa	I'w gadarnhau